# Mesur Addysg (Cymru) 2009

**2009 mccc 5**

## RHAN 1

APELAU A HAWLIADAU ADDYSG GAN BLANT

*Diddymu ac ailddeddfu Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn y dyfodol*

### 20 Pwerau mewn perthynas â diddymu ac ailddeddfu Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os diddymir ac ail-ddeddfir, gan Ddeddf Seneddol, Ran 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (wedi neu heb ei haddasu).

(2) Yn is-adran (1) mae'r ymadrodd "diddymir ac ail-ddeddfir" yn cynnwys diddymu ac ailddeddfu cyn cychwyn y diddymiad ac ailddeddfiad.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn—

- (a) gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i ddarpariaeth a wneir gan adrannau 9 i 16 o'r Mesur hwn, a
- (b) gwneud y cyfryw ddarpariaeth arall ag y byddant o'r farn ei bod yn briodol iddynt ei gwneud yn sgil unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan baragraff (a).

(4) Mae'r pŵer a roddir gan is-adran (3) yn cynnwys pŵer i ddiwygio neu ddiddymu unrhyw ddeddfiad (pa bryd bynnag y caiff ei basio neu ei wneud), gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur hwn.

(5) Yn yr adran hon mae "deddfiad" yn cynnwys deddfiad a geir mewn is-ddeddfwriaeth, o fewn ystyr Deddf Ddehongli 1978 (p.30).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 20 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 26(3)**

**I2** A. 20 mewn grym ar 11.6.2011 gan O.S. 2011/1468, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Addysg (Cymru) 2009, Croes Bennawd: Diddymu ac ailddeddfu Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn y dyfodol.